



## **1 Ffrâm gyfeirio**

1.1	<b>Diffiniad a nodweddion</b>	<b>3</b>
1.2	<b>Nodau</b>	<b>3</b>
1.3	<b>Strwythur y cymhwyster</b>	<b>4</b>
1.4	<b>Sylwadau ar strwythur y cymhwyster</b>	<b>5</b>
1.5	<b>Derbyniadau</b>	<b>7</b>
1.6	<b>Ymsefydlu</b>	<b>7</b>
1.7	<b>Cynllunio'r rhaglen</b>	<b>7</b>
1.8	<b>Sgiliau gweithredol</b>	<b>8</b>
1.9	<b>Asesu</b>	<b>8</b>
1.10	<b>Rheoleiddio a chyllido</b>	<b>8</b>

## **2 Unedau a chynnwys dangosol**

Uned 1	Cyflwyniad i ddeunyddiau, prosesau a sgiliau mewn celf, dylunio a'r cyfryngau	<b>10</b>
Uned 2	Cyflwyniad i ymchwil i gyd-destun mewn celf, dylunio a'r cyfryngau	<b>12</b>
Uned 3	Cyflwyniad i sgiliau cyfathrebu mewn celf, dylunio a'r cyfryngau	<b>14</b>
Uned 4	Datrys problemau 2D creadigol	<b>16</b>
Uned 5	Datrys problemau 3D creadigol	<b>18</b>
Uned 6	Datrys problemau creadigol seiliedig ar amser	<b>20</b>
Uned 7	Prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau - Lefel 1	<b>22</b>
Uned 8	Prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau - Lefel 2	<b>24</b>

## **3 Meini prawf graddio**

Uned 7	Prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau - Lefel 1	<b>26</b>
Uned 8	Prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau - Lefel 2	<b>28</b>

## **4 Enghreifftio graddau**

**30**

















# Uned 1

**Cyflwyniad i  
ddeunyddiau,  
prosesau a sgiliau  
mewn celf, dylunio a'r  
cyfryngau**

**Lefel: 1**

**ODA: 40**

**CAU: 60**

**Credydau: 6**

**Nod yr Uned:** Rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r deunyddiau a'r prosesau a ddefnyddir ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau, a'r sgiliau sydd eu hangen i gofnodi a mynegi syniadau.

## Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn celf, dylunio a'r cyfryngau.

## Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Nodi amrywiaeth o ddeunyddiau a phrosesau sy'n cefnogi gweithgareddau creadigol.
- 1.2 Dangos defnydd o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau i gofnodi a mynegi syniadau.

### Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio gweithgareddau ac aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon, y dylid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 2 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a fydd yn galluogi'r myfyriwr i ddatblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau a ddefnyddir ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau.

Dylid annog myfywrwyr i ddatblygu lefel briodol o sgil bersonol yn eu gwaith, sy'n eu galluogi i fynegi eu profiadau a'u syniadau.

Dylai'r uned hon, ar y cyd ag Uned 2, ddarparu sylfaen o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd yn sail i'r holl ddysgu wedi hynny yn y Diploma. Mae felly'n bwysig sicrhau bod myfywrwyr yn cyrraedd safonau priodol mewn gweithgareddau ymarferol a damcaniaethol, fel ei gilydd.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio neu brosiect gweithdy sydd wedi'i ddylunio i wella dealltwriaeth, gallu a hyder y myfyriwr wrth ddefnyddio a chymhwyso amrywiaeth o sgiliau.

Dylid annog myfywrwyr i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio amrywiaeth o ddeunyddiau a phrosesau. Mae'r uned wedi'i dylunio i roi profiad ymarferol wedi'i gefnogi gan ymchwil i gyd-destun o Uned 2.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio amrywiaeth o brosesau a sgiliau a ddefnyddir mewn disgyblaethau celf, dylunio a'r cyfryngau
- Defnyddio llyfrau braslunio i gofnodi ac archwilio syniadau
- Cyflwyniad i iaith weledol a lluniadu
- Cyflwyniad i amrywiaeth o arfau a thechnegau a ddefnyddir mewn celf, dylunio a'r cyfryngau
- Iechyd a diogelwch mewn gweithdai
- Cyflwyniadau unigol a gwaith grŵp
- Grwpiau trafod i archwilio effeithiolrwydd gwahanol dechnegau
- Asesu cyd-fyfyrwyr a hunan-asesu

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfywrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

### Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfywrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned. Dylid cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon gyda'r rhai ar gyfer Uned 2.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: lluniadau archwilio, lluniadau dadansodol, llyfrau braslunio, llyfrau nodiadau, dyddiaduron, gwrthrychau wedi'u gwneuthurio, recordiadau digidol, ffotograffau ac arteffactau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfywrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

### Sgiliau Gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos sgiliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng anodiadau a gwerthusiadau
- **Mathemateg** drwy gyfrwng gwaith mesur
- **TGCh** drwy ddefnyddio o ymchwil ar y we a recordio digidol.

### Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 2

Cyflwyniad i ymchwil i  
gyd-destun mewn celf,  
dylunio a'r cyfryngau

Lefel: 1

ODA: 20

CAU: 30

Credydau: 3

**Nod yr uned:** Rhoi ymwybyddiaeth i fyfyrwyr o sut caiff ymchwil i gyd-destun ei defnyddio i ategu gweithgareddau creadigol.

## Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall ymchwil i gyd-destun ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau.

## Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Nodi gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer gweithgareddau celf, dylunio a'r cyfryngau.
- 1.2 Dangos defnydd o wybodaeth gyd-destunol i ddatblygu syniadau.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio gweithgareddau ac aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar y myfyriwr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwr eu cyflawni.

Mae'r uned hon, y dylid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 1 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a fydd yn galluogi'r myfyriwr i ddatblygu dealltwriaeth o ymchwil i gyd-destun a ddefnyddir ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau.

Dylid annog myfyrwyr i ddatblygu lefel briodol o sgîl bersonol yn eu gwaith, sy'n eu galluogi i fynegi eu profiadau a'u syniadau.

Dylai'r uned hon, ar y cyd ag Uned 1, ddarparu sylfaen o sgîliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd yn sail i'r holl ddysgu wedi hynny yn y Diploma. Mae felly'n bwysig sicrhau bod myfyrwyr yn cyrraedd safonau priodol mewn gweithgareddau ymarferol a damcaniaethol, fel ei gilydd.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio neu brosiect gweithdy sydd wedi'i ddylunio i wella dealltwriaeth, gallu a hyder y myfyriwr wrth ddefnyddio a chymhwyso ymchwil i gyd-destun.

Dylid annog myfyrwyr i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r uned wedi'i dylunio i gynnig profiad sy'n ategu'r gweithgareddau ymarferol a gyflawnir ar gyfer Uned 1 drwy gyfrwng ymchwiliad ategol o ymchwil i gyd-destun.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio gwahanol ddelweddau mewn disgyblaethau celf, dylunio a'r cyfryngau
- Defnyddio llyfrau braslunio i gofnodi ac archwilio syniadau
- Cyflwyniad i ddulliau ymchwil
- Cyflwyniad i amrywiaeth o arfau a thechnegau ymchwilio a ddefnyddir ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau
- Cyfeirio at ffynonellau
- Cyflwyniadau unigol a gwaith grŵp
- Grwpiau trafod i archwilio dylanwad gwahanol ffynonellau
- Asesu cyd-fyfyrwyr a hunan-asesu

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned. Dylid cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon gyda'r rhai ar gyfer Uned 1.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith ysgrifenedig, llyfrau braslunio, llyfrau nodiadau, dyddiaduron, delweddau, recordiadau digidol a ffotograffau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Sgîliau gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos sgîliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng ymchwil llyfrgell, gwaith ysgrifenedig, anodiadau, gwerthusiadau a chyflwyniadau
- **TGCh** drwy ddefnydd o ymchwil ar y we, recordio digidol, prosesu geiriau a chyflwyniadau digidol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 3

Cyflwyniad i sgiliau  
cyfathrebu mewn  
celf, dylunio a'r  
cyfryngau

Lefel: 1

ODA: 60

CAU: 90

Credydau: 9

**Nod yr uned:** Rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r sgiliau cyfathrebu a ddefnyddir i ategu gweithgareddau creadigol, a datblygu dealltwriaeth o'r rôl y mae sgiliau cyfathrebu'n eu chwarae wrth lywio a datblygu syniadau.

## Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall amrywiaeth o ddulliau a sgiliau cyfathrebu.
2. Gallu defnyddio dulliau a sgiliau cyfathrebu.

## Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Cymharu dulliau a sgiliau cyfathrebu i ategu gweithgareddau creadigol.
- 2.1 Defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i gyflwyno syniadau.
- 2.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw dulliau a sgiliau a ddewiswyd i gyfathrebu syniadau.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio gweithgareddau ac aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar y myfyriwr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwr eu cyflawni.

Mae'r uned hon, y gellid ei chysylltu a/neu ei chyflwyno ochr yn ochr ag Unedau 4, 5 a 6, wedi'i dylunio i roi dealltwriaeth o bwysigrwydd sgiliau cyfathrebu wrth fynegi syniadau i ategu gweithgareddau creadigol.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio neu brosiect gweithdy sydd wedi'i ddylunio i wella dealltwriaeth, gallu a hyder y myfyriwr wrth ddefnyddio a chymhwyso dulliau a thechnegau cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys ffurfiau gweledol, llafar ac ysgrifenedig, a hynny'n rhai byr neu estynedig.

Dylai canolfannau gynnig cyfle i fyfyrwr gael mynediad i adnoddau mewnol ac allanol, gan gynnwys ymweliadau addysgol.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio amrywiaeth o ffurfiau cyfathrebu
- Defnyddio llyfrau braslunio i gofnodi ac archwilio syniadau
- Defnyddio cyfryngau traddodiadol a newydd ar gyfer lluniadu a/neu gyfathrebu
- Cyflwyniad i amrywiaeth o ffurfiau a thechnegau cyfathrebu a ddefnyddir mewn celf, dylunio a'r cyfryngau
- Ymweliadau addysgol
- Ymchwil llyfrgell ac ymchwil ar y we
- Cyfeirio at ffynonellau
- Cyflwyniadau ysgrifenedig, gweledol a llafar
- Grwpiau trafod
- Cyflwyniadau unigol a grŵp
- Asesu cyd-fyfyrwr a hunan-asesu.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith ysgrifenedig, llyfrau braslunio, llyfrau nodiadau, dyddiaduron, delweddau, recordiadau digidol a ffotograffau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Sgiliau gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwr ddangos sgiliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng ymchwil llyfrgell, gwaith ysgrifenedig, anodiadau, gwerthusiadau a chyflwyniadau
- **TGCh** drwy ddefnyddio o ymchwil ar y we, recordio digidol, prosesu geiriau a chyflwyniadau digidol
- **Mathemateg** drwy gyfrwng gwaith mesur, graddfa a phersbectif wrth lluniadu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 4

## Datrys problemau 2D creadigol

Lefel: 1

ODA: 60

CAU: 90

Credydau: 9

**Nod yr uned:** Rhoi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd eisoes i archwilio a datrys problem 2D creadigol.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn celf, dylunio a chyfryngau 2D.
2. Gallu defnyddio ymchwil i gyd-destun 2D.
3. Gallu defnyddio sgiliau cyfathrebu 2D.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiad ar gyfer problem 2D creadigol.
- 2.1 Defnyddio ymwybyddiaeth o gyd-destun i gefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiad ar gyfer problem 2D creadigol.
- 3.1 Cyflwyno datrysiadau ar gyfer problem 2D creadigol.
- 3.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer problem 2D creadigol.



## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio gweithgareddau ac aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar y myfyriwr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i ddsygwyr eu cyflawni.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon, y gellid ei chysylltu a/neu ei chyflwyno ochr yn ochr ag Unedau 3, 5 a 6, drwy gyfrwng prosiectau sy'n meithrin hyder myfyrrwyr ac sy'n eu helpu i ymgfarwyddo â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ymgymryd yn llwyddiannus â thasg i ddatrys problem 2D.

Mae'r uned yn gofyn i fyfyrwyr ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, datblygu ac asesu eu syniadau yn erbyn gofynion penodedig briiff y prosiect, a defnyddio sgiliau cyfathrebu i gyflwyno'u datrasiadau.

Lle bo canolfannau'n ymgorffori gwaith tîm mewn aseiniad, mae'n bwysig bod y dystiolaeth asesu'n adlewyrchu'r cyfraniad a wnaeth pob myfyriwr. Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddisgrifio'u syniadau mewn perthynas â'u gweithgaredd datrys problemau.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Gweithgaredd ymchwil
- Ymarferion ac arbrofion datblygu dyluniad
- Archwilio cyfryngau, deunyddiau a thechnegau traddodiadol
- Archwilio cyfryngau, deunyddiau a thechnegau print
- Archwilio cyfryngau, deunyddiau a thechnegau lens
- Defnyddio ystod o ffurfiau a thechnegau 2D a ddefnyddir mewn celf, dylunio a'r cyfryngau
- Cyflwyniadau digidol a blogiau
- Ymweliadau addysgol
- Ymchwil llyfrgell ac ymchwil ar y we
- Cyfeirio at ffynonellau
- Grwpiau trafod
- Cyflwyniadau unigol a grŵp
- Asesu cyd-fyfyrwyr a hunan-asesu.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith ysgrifenedig, llyfrau braslunio, llyfrau nodiadau, dyddiaduron, delweddau, recordiadau digidol a ffotograffau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Sgiliau gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos sgiliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng ymchwil llyfrgell, gwaith ysgrifenedig, anodiadau, gwerthusiadau a chyflwyniadau
- **TGCh** drwy ddefnydd o ymchwil ar y we, recordio digidol, prosesu geiriau a chyflwyniadau digidol
- **Mathemateg** drwy gyfrwng gwaith mesur, graddfa a phersbectif wrth luniadu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 5

## Datrys problemau 3D creadigol

Lefel: 1

ODA: 60

CAU: 90

Credydau: 9

**Nod yr uned:** Rhoi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd eisoes i archwilio a datrys problem 3D creadigol.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn celf, dylunio a chyfryngau 3D.

2. Gallu defnyddio ymchwil i gyd-destun 3D.

3. Gallu defnyddio sgiliau cyfathrebu 3D.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

1.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiad ar gyfer problem 3D creadigol.

2.1 Defnyddio ymwybyddiaeth o gyd-destun i gefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiad ar gyfer problem 3D creadigol.

3.1 Cyflwyno datrysiadau ar gyfer problem 3D creadigol.

3.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer problem 3D creadigol.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio gweithgareddau ac aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i ddysgwyr eu cyflawni.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon, y gellid ei chysylltu a/neu ei chyflwyno ochr yn ochr ag Unedau 3, 4 a 6, drwy gyfrwng prosiectau sy'n meithrin hyder myfyrwyr ac sy'n eu helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ymgymryd yn llwyddiannus â thasg i ddatrys problem 3D.

Mae'r uned yn gofyn i fyfyrwyr ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, datblygu ac asesu eu syniadau yn erbyn gofynion penodedig briif y prosiect, a defnyddio sgiliau cyfathrebu i gyflwyno'u datrysiadau.

Lle bo canolfannau'n ymgorffori gwaith tîm mewn aseiniad, mae'n bwysig bod y dystiolaeth asesu'n adlewyrchu'r cyfraniad a wnaeth pob myfyriwr. Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddisgrifio'u syniadau mewn perthynas â'u gweithgaredd datrys problemau.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Gweithgaredd ymchwil
- Iechyd a diogelwch mewn gweithdai
- Ymarferion ac arbrofion datblygu dyluniad
- Archwilio deunyddiau a thechnegau meddal
- Archwilio deunyddiau a thechnegau caled
- Technegau a phrosesau gwneuthurio
- Ymweliadau addysgol
- Ymchwil llyfrgell ac ymchwil ar y we
- Cyfeirio at ffynonellau
- Grwpiau trafod
- Cyflwyniadau unigol a grŵp
- Asesu cyd-fyfyrwyr a hunan-asesu.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith lluniadu a dylunio, arbrofi gyda deunyddiau, llyfrau braslunio, dyddiaduron, modelau, maquettes a samplau wedi'u gwneuthurio, arteffactau a recordiadau digidol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Sgiliau Gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos sgiliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng ymchwil llyfrgell, gwaith ysgrifenedig, anodiadau, gwerthusiadau a chyflwyniadau
- **TGCh** drwy ddefnydd o ymchwil ar y we, recordio digidol, prosesu geiriau a chyflwyniadau digidol.
- **Mathemateg** drwy gyfrwng gwaith mesur a graddfa wrth ddylunio a gwneud modelau.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 6

## Datrys problemau creadigol seiliedig ar amser

**Lefel: 1**

**ODA: 60**

**CAU: 90**

**Credydau: 9**

**Nod yr uned:** Rhoi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd eisoes i archwilio a datrys problem greadigol seiliedig ar amser.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn celf, dylunio a chyfryngau seiliedig ar amser.
2. Gallu defnyddio ymchwil i gyd-destun seiliedig ar amser.
3. Gallu defnyddio sgiliau cyfathrebu seiliedig ar amser.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiad ar gyfer problem greadigol seiliedig ar amser.
- 2.1 Defnyddio ymwybyddiaeth o gyd-destun i gefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiad ar gyfer problem greadigol seiliedig ar amser.
- 3.1 Cyflwyno datrysiadau ar gyfer problem greadigol seiliedig ar amser.
- 3.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer problem greadigol seiliedig ar amser.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio gweithgareddau ac aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar y myfyriwr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon, y gellid ei chysylltu a/neu ei chyflwyno ochr yn ochr ag Unedau 3, 4 a 5, drwy gyfrwng prosiectau sy'n meithrin hyder myfyrwyr ac sy'n eu helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ymgymryd yn llwyddiannus â thasg i ddatrys problem seiliedig ar amser.

Mae'r uned yn gofyn i fyfyrwyr ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, datblygu ac asesu eu syniadau yn erbyn gofynion penodedig briff y prosiect, a defnyddio sgiliau cyfathrebu i gyflwyno'u datrysiadau.

Lle bo canolfannau'n ymgorffori gwaith tîm mewn aseiniad, mae'n bwysig bod y dystiolaeth asesu'n adlewyrchu'r cyfraniad a wnaeth pob myfyriwr. Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddisgrifio'u syniadau mewn perthynas â'u gweithgaredd datrys problemau.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Gweithgaredd ymchwil
- Ymarferion ac arbrofion datblygu dyluniad
- Byrddau stori
- Archwilio fformatau cyfryngau seiliedig ar amser
- Archwilio'r cyfryngau cymdeithasol, blogiau ac apiau
- Technegau a phrosesau dylunio animeiddiadau, ffilm a gemau
- Ymweliadau addysgol
- Ymchwil llyfrgell ac ymchwil ar y we
- Grwpiau trafod
- Cyflwyniadau unigol a grŵp
- Asesu cyd-fyfyrwyr a hunan-asesu.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith lluniadau a dylunio, arbrofi gyda chyfryngau, llyfrau braslunio, dyddiaduron, recordiadau analog a digidol, a blogiau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Sgiliau gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos sgiliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng ymchwil llyfrgell, gwaith ysgrifenedig, anodiadau, gwerthusiadau a chyflwyniadau
- **TGCh** drwy ddefnydd o ymchwil ar y we, recordio digidol, prosesu geiriau a chyflwyniadau digidol
- **Mathemateg** drwy ddefnydd o recordio seiliedig ar amser, codio cyfrifiadurol a gwneud modelau wrth raddfa ar gyfer animeiddiadau.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 7

## Prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau

**Lefel: 1**

**ODA: 120 CAU: 300 Credydau: 30**

**Nod yr uned:** Mae'r uned hon yn gofyn i fyfyrwyr ddangos eu cryfderau personol ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau a defnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn yr unedau blaenorol ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

- Gallu cynllunio a datblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- Gallu defnyddio ymchwil ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- Gallu defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau i gynhyrchu a chyflwyno prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- Gallu cynnig sylwadau ar ba mor effeithiol yw prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Nodi a defnyddio'i gryfderau/chryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.  
1.2 Gwneud gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni.
- 2.1 Defnyddio ymchwil i ddatblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- 3.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.  
3.2 Dewis a defnyddio technegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn.  
4.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Mae Uned 7, uned olaf y cymhwyster ar Lefel 1, wedi'i dylunio i roi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu cryfderau personol ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau, a defnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn yr unedau blaenorol wrth ymateb i ofynion prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r uned hon ddarparu aseiniad cwmpasog sy'n rhoi paramedrau cyraeddadwy i fyfyrwyr ar gyfer y prosiect. Dylai'r aseiniad ddarparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu ar yr un pryd â chaniatáu iddynt ddewis eu gweithgaredd penodol eu hunain. Dylai myfyrwyr ddangos y gallant wneud penderfyniadau yn annibynnol i raddau wrth bennu, cynllunio, ymchwilio, trefnu a chyflawni'r prosiect.

Dylai canolfannau sicrhau bod y myfyriwr yn sefydlu a phennu nodau'n glir, o fewn cylch gorchwyl yr aseiniad cwmpasog, yn gynnar yn y prosiect. Disgwylir y bydd myfyrwyr yn cael lefelau priodol o gymorth drwy gydol y gwaith o ddatblygu a gwireddu'r prosiect, yn cynnwys cyfleoedd am adborth gan diwtoriaid, cyd-fyfyrwyr ac mewn grŵp wrth bennu, archwilio ac asesu eu syniadau. Mae'r uned yn gyfle delfrydol i fyfyrwyr ymestyn a datblygu'r defnydd o ddyddiadur personol i gofnodi eu syniadau a'u meddyliau drwy gydol y prosiect.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned ei hasesu, ei graddio a'i dilysu'n fewnol a'i safoni'n allanol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith lluniadu a dylunio, arbrofi gyda chyfryngau, llyfrau braslunio, dyddiaduron, recordiadau analog a digidol, a blogiau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Sgiliau gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos sgiliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng ymchwil llyfrgell, gwaith ysgrifenedig, anodiadau, gwerthusiadau a chyflwyniadau
- **TGCh** drwy ddefnydd o ymchwil ar y we, recordio digidol, prosesu geiriau a chyflwyniadau digidol
- **Mathemateg** drwy gyfrwng gwaith mesur, graddfa a phersbectif, costio deunyddiau a chodio cyfrifiadurol.

# Uned 8

## Prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau

**Lefel: 2**

**ODA: 120 CAU: 300 Credydau: 30**

**Nod yr uned:** Mae'r uned hon yn gofyn i fyfyrwyr adnabod a dangos eu cryfderau personol ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau a defnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn yr unedau blaenorol yn effeithiol ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu cynllunio a datblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
2. Gallu defnyddio ymchwil ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
3. Gallu defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau i gynhyrchu a chyflwyno prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
4. Gallu cynnig sylwadau ar ba mor effeithiol yw prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Nodi, asesu a defnyddio'i gryfderau/chryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- 1.2 Adolygu, diwygio a defnyddio gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni.
- 2.1 Nodi ffynonellau ymchwil.
- 2.2 Defnyddio ymchwil i lywio a datblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- 3.1 Defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- 3.2 Dewis, cymharu a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.
- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn a'u cyfathrebu'n effeithiol.
- 4.2 Asesu pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.



## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Mae Uned 8, uned olaf y cymhwyster ar Lefel 2, wedi'i dylunio i roi cyfle i fyfyrwyr adnabod a dangos eu cryfderau personol ym maes celf, dylunio a'r cyfryngau. Mae hefyd yn gyfle iddynt ddefnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn yr unedau blaenorol wrth ymateb i ofynion prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau.

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r uned hon ddarparu aseiniad cwmpasog sy'n rhoi paramedrau cyraeddadwy i fyfyrwyr ar gyfer y prosiect. Dylai'r aseiniad ddarparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu ar yr un pryd â chaniatáu iddynt ddewis eu gweithgaredd penodol eu hunain. Dylai myfyrwyr ddangos y gallant wneud penderfyniadau yn annibynnol i raddau wrth bennu, cynllunio, ymchwilio, trefnu a chyflawni'r prosiect.

Dylai canolfannau sicrhau bod y myfyriwr yn sefydlu a phennu nodau'n glir, o fewn cylch gorchwyl yr aseiniad cwmpasog, yn gynnar yn y prosiect. Disgwylir y bydd myfyrwyr yn cael lefelau priodol o gymorth drwy gydol y gwaith o ddatblygu a gwireddu'r prosiect, yn cynnwys cyfleoedd am adborth gan diwtoriaid, cyd-fyfyrwyr ac mewn grŵp wrth bennu, archwilio ac asesu eu syniadau. Mae'r uned yn gyfle delfrydol i fyfyrwyr ymestyn a datblygu'r defnydd o ddyddiadur personol i gofnodi eu syniadau a'u meddyliau drwy gydol y prosiect.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned ei hasesu, ei graddio a'i dilysu'n fewnol a'i safoni'n allanol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith lluniadu a dylunio, arbrofi gyda chyfryngau, llyfrau braslunio, dyddiaduron, recordiadau analog/digidol, a blogiau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Sgiliau gweithredol

Gall yr uned gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos sgiliau gweithredol mewn:

- **Saesneg** drwy gyfrwng ymchwil llyfrgell, gwaith ysgrifenedig, anodiadau, gwerthusiadau a chyflwyniadau
- **TGCh** drwy ddefnydd o ymchwil ar y we, recordio digidol, prosesu geiriau a chyflwyniadau digidol
- **Mathemateg** drwy gyfrwng gwaith mesur, graddfa a phersbectif, costio deunyddiau a chodio cyfrifiadurol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

## Uned 7: Prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau - Lefel 1

Mae Uned 7, sef uned olaf y Diploma mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau ar Lefel 1, yn caniatáu i'r dystiolaeth a gyflwyna'r myfyriwr gael ei hasesu a'i graddio.

Caiff y radd gyffredinol ar gyfer y Diploma Lefel 1 mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau ei phennu gan gyflawniad y myfyriwr yn Uned 7: Prosiect Celf, Dylunio a'r Cyfryngau. Cyfeiriwch at y matrices enghreifftio graddau Lefel 1 (ar dudalen 30).

Mae'r holl benderfyniadau mewnol o ran asesu a graddio yn ddarostyngedig i safoni allanol.

Mae'r graddau y gellir eu cyflawni fel a ganlyn:

### Cyfeirio

Os bydd myfyriwr yn methu â darparu tystiolaeth ddigonol i fodloni'r holl feini prawf asesu, yna caiff ei gyfeirio/chyfeirio. Mae gan y myfyriwr un cyfle arall i glirio'r Cyfeiriad drwy gyflwyno tystiolaeth ychwanegol o fewn amserlen y mae'r Ganolfan yn cytuno arni ac y caiff UAL Awarding Body gadarnhad ohoni. Y radd uchaf a gaiff myfyrwyr sy'n cael eu cyfeirio ac sy'n llwyddo i fodloni'r meini prawf ar ôl ailgyflwyno yw Llwyddo.

### Methu

Os bydd y myfyriwr yn methu â darparu tystiolaeth bellach sy'n bodloni'r meini prawf asesu, yna bydd yn cael gradd Methu.

### Llwyddo

I ennill gradd Llwyddo, rhaid i fyfyriwr fodloni'r holl feini prawf asesu a restrir yn Uned 7.

### Teilyngdod

I ennill gradd Teilyngdod, rhaid i fyfyriwr fodloni'r holl feini prawf asesu a restrir yn Uned 7 yn ogystal â'r holl feini prawf ar gyfer gradd Teilyngdod a restrir yma.

### Anrhydedd

I ennill gradd Anrhydedd, rhaid i fyfyriwr fodloni'r holl feini prawf asesu a restrir yn Uned 7 yn ogystal â'r holl feini prawf ar gyfer gradd Teilyngdod ac Anrhydedd a restrir yma.

## 1. Cynllunio a chynhyrchu Llwyddo

- 1.1 Nodi a defnyddio cryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.
- 1.2 Gwneud gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni at safon foddhaol.

## Teilyngdod

- 1.1 Nodi a defnyddio cryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.
- 1.2 Gwneud gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni at safon uchel.

## Anrhydedd

- 1.1 Nodi a defnyddio cryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.
- 1.2 Gwneud gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni at safon uchel iawn.

## 2. Ymchwil, datblygu a datrys problemau

### Llwyddo

- 2.1 Defnyddio ymchwil i ddatblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.

### Teilyngdod

- 2.1 Defnyddio ymchwil i ddatblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.

### Anrhydedd

- 2.1 Defnyddio ymchwil i ddatblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.

## 3. Sgiliau ymarferol a chyflwyno

### Llwyddo

- 3.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.
- 3.2 Dewis a defnyddio technegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.

### Teilyngdod

- 3.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.
- 3.2 Dewis a defnyddio technegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.

### Anrhydedd

- 3.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.
- 3.2 Dewis a defnyddio technegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.

## 4. Gwerthuso a myfyrio

### Llwyddo

- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn at safon foddhaol.
- 4.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.

### Teilyngdod

- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn at safon uchel.
- 4.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.

### Anrhydedd

- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn at safon uchel iawn.
- 4.2 Disgrifio pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.

## Uned 8 Prosiect Celf, Dylunio a'r Cyfryngau - Lefel 2

Mae Uned 8, sef uned olaf y Diploma mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau ar Lefel 2, yn caniatáu i'r dystiolaeth a gyflwyna'r myfyriwr gael ei hasesu a'i graddio.

Caiff y radd gyffredinol ar gyfer y Diploma Lefel 2 mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau ei phennu gan gyflawniad y myfyriwr yn Uned 8: Prosiect Celf, Dylunio a'r Cyfryngau. Cyfeiriwch at y matrices enghreifftio graddau Lefel 2 ar wefan UAL Awarding Body.

Mae'r holl benderfyniadau mewnol o ran asesu a graddio yn ddarostyngedig i safoni allanol.

Mae'r graddau y gellir eu cyflawni fel a ganlyn:

### Cyfeirio

Os bydd myfyriwr yn methu â darparu tystiolaeth ddigonol i fodloni'r holl feini prawf asesu, yna caiff ei gyfeirio/chyfeirio. Mae gan y myfyriwr un cyfle arall i glirio'r Cyfeiriad drwy gyflwyno tystiolaeth ychwanegol o fewn amserlen y mae'r Ganolfan yn cytuno arni ac y caiff UAL Awarding Body gadarnhad ohoni. Y radd uchaf a gaiff myfyrwyr sy'n cael eu cyfeirio ac sy'n llwyddo i fodloni'r meini prawf ar ôl ailgyflwyno yw Llwyddo.

### Methu

Os bydd y myfyriwr yn methu â darparu tystiolaeth bellach sy'n bodloni'r meini prawf asesu, yna bydd yn cael gradd Methu.

### Llwyddo

I ennill gradd Llwyddo, rhaid i fyfyriwr fodloni'r holl feini prawf asesu a restrir yn Uned 8.

### Teilyngdod

I ennill gradd Teilyngdod rhaid i fyfyriwr fodloni'r holl feini prawf asesu a restrir yn Uned 8 yn ogystal â'r holl feini prawf ar gyfer gradd Teilyngdod a restrir yma.

### Anrhydedd

I ennill gradd Anrhydedd, rhaid i fyfyriwr fodloni'r holl feini prawf asesu a restrir yn Uned 8 yn ogystal â'r holl feini prawf ar gyfer gradd Teilyngdod ac Anrhydedd a restrir yma.

### 1. Cynllunio a chynhyrchu Llwyddo

- 1.1 Nodi, asesu a defnyddio cryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.
- 1.2 Adolygu, diwygio a defnyddio gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni at safon foddhaol.

### Teilyngdod

- 1.1 Nodi, asesu a defnyddio cryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.
- 1.2 Adolygu, diwygio a defnyddio gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni at safon uchel.

### Anrhydedd

- 1.1 Nodi, asesu a defnyddio cryfderau personol wrth ddatblygu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.
- 1.2 Adolygu, diwygio a defnyddio gwaith cynllunio er mwyn cyflawni prosiect personol o fewn amserlen y cytunir arni at safon uchel iawn.

## 2. Ymchwil, datblygu a datrys problemau

### Llwyddo

- 2.1 Nodi ffynonellau ymchwil at safon foddhaol.
- 2.2 Defnyddio ymchwil i lywio a datblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.

### Teilyngdod

- 2.1 Nodi ffynonellau ymchwil at safon uchel.
- 2.2 Defnyddio ymchwil i lywio a datblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.

### Anrhydedd

- 2.1 Nodi ffynonellau ymchwil at safon uchel iawn.
- 2.2 Defnyddio ymchwil i lywio a datblygu syniadau i ategu prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.

## 3. Sgiliau ymarferol a chyflwyno

### Llwyddo

- 3.1 Defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.
- 3.1 Dewis, cymharu a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.

### Teilyngdod

- 3.1 Defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.
- 3.2 Dewis, cymharu a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.

### Anrhydedd

- 3.1 Defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau mewn ffordd briodol i gynhyrchu datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.
- 3.2 Dewis, cymharu a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.

## 4. Gwerthuso a myfyrio

### Llwyddo

- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn a'u cyfathrebu'n effeithiol at safon foddhaol.
- 4.2 Asesu pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon foddhaol.

### Teilyngdod

- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn a'u cyfathrebu'n effeithiol at safon uchel.
- 4.2 Asesu pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel.

### Anrhydedd

- 4.1 Trafod a chofnodi syniadau a barn a'u cyfathrebu'n effeithiol at safon uchel iawn.
- 4.2 Asesu pa mor effeithiol yw datrysiadau ar gyfer prosiect celf, dylunio a'r cyfryngau at safon uchel iawn.

## Enghreiffio ar gyfer meini prawf graddio UAL Awarding Body – Lefel 1

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â'r meini prawf asesu a graddio ar gyfer cymwysterau UAL Awarding Body ar Lefel 1.

### Methu

Mae'r gwaith a gyflwynwyd yn methu â bodloni un neu fwy o'r meini prawf asesu ac mae o safon isel.

### Llwyddo

Mae'r gwaith a gyflwynwyd yn bodloni'r holl feini prawf asesu ac mae o safon foddhaol.

### Cynllunio a chynhyrchu

Ond ychydig o gynllunio, os o gwbl, trefnu gwael a hynny heb gyd-fynd â'r amserlen.

Digon o gynllunio a threfnu i allu cwblhau yn ôl yr amserlen.

### Ymchwil, datblygu a datrys problemau

Ond ychydig o ymchwil, os o gwbl, syniadau heb eu datblygu a phroblemau heb eu datrys.

Peth ymchwil a datblygu syniadau. Peth tystiolaeth o ddatrys problemau syml.

### Sgiliau ymarferol a chyflwyno

Sgiliau cyfyngedig wedi'u dangos, defnyddio prosesau amhriodol. Cyflwyno gwael.

Dangos peth sgil a defnydd o brosesau priodol. Gallu dewis a defnyddio technegau ar gyfer cyflwyno.

### Gwerthuso a myfyrio

Asesu annigonol o syniadau, dim ond ychydig o dystiolaeth o adolygu, os o gwbl.

Peth asesu parhaus o syniadau, gallu trafod ac adolygu.

### Teilyngdod

**Mae'r gwaith a gyflwynwyd yn bodloni'r holl feini prawf asesu ac mae o safon uchel.**

Cynllunio a threfnu da. Cynhyrchu effeithiol a chwblhau yn ôl yr amserlen.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ymchwil i lywio datblygiad syniadau. Peth tystiolaeth o ddatrys problemau.

Dangos sgil a'r defnydd o brosesau priodol. Gallu dewis technegau ar gyfer cyflwyno, a'u defnyddio'n gymwys.

Asesu parhaus o syniadau, gallu trafod, adolygu a gwerthuso.

### Anrhydedd

**Mae'r gwaith a gyflwynwyd yn bodloni'r holl feini prawf asesu ac mae o safon uchel iawn.**

Cynllunio trylwyr a threfnu da. Cynhyrchu effeithlon a chyflawni yn ôl yr amserlen.

Dangos cysylltiad clir rhwng ymchwil a datblygu syniadau. Gallu addasu syniadau wrth ymateb i broblemau.

Dangos sgiliau'n gyson a defnyddio amrywiaeth o brosesau priodol. Gallu dewis technegau ar gyfer cyflwyno, a'u defnyddio'n gymwys.

Defnydd effeithiol o asesu parhaus o syniadau, gallu trafod, adolygu a gwerthuso er mwyn llywio cynnydd.

Mae UAL Awarding Body yn credu mewn addysg drawsffurfiol. Rydym yn dylunio a dyfarnu cymwysterau creadigol sy'n grymuso ac ysbrydoli addysgwyr i helpu myfyrwyr i gyrraedd eu potensial.

Mae UAL Awarding Body yn cael ei reoleiddio gan Ofqual, Cymwysterau Cymru a CCEA ac ar hyn o bryd mae'n cynnig cymwysterau achrededig mewn celf a dylunio, ffasiwn, cyfryngau creadigol, cerddoriaeth a'r celfyddydau perfformio a chynhyrchu. Ni hefyd yw prif ddarparwr y Diploma mewn Celf a Dylunio - Astudiaethau Sylfaen yn y DU. Mae cyfraddau cadw a chyflawniad uchel gan ein cymwysterau am eu bod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn berthnasol i anghenion diwydiant, ac yn hwyluso dilyniant myfyrwyr.

University of the Arts London (UAL) yw prifysgol fwyaf Ewrop sy'n arbenigo mewn celf a dylunio, ac mae'n cwmpasu chwe Choleg adnabyddus: Camberwell College of Arts, Central Saint Martins, Chelsea College of Arts, London College of Communication, London College of Fashion a Wimbledon College of Arts.

## Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â:

**UAL Awarding Body**  
272 High Holborn  
Llundain  
WC1V 7EY

Ffôn: 0207 514 9851  
E-bost: [ual.awardingbody@arts.ac.uk](mailto:ual.awardingbody@arts.ac.uk)

 [UALawardingbody](#)

 [UALawardingbody](#)

 [UALawardingbody](#)

## Fersiwn 5

[arts.ac.uk/awarding](https://arts.ac.uk/awarding)



Delwedd: Charlie Goodwin  
Lefel 1 Celf, Dylunio a'r Cyfryngau  
The College at Braintree